Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# COD YMARFER AR LES CEFFYLAU
## Dilyn y cod

**Rhagair**

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y Ddeddf), os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i wneud popeth rhesymol i ofalu am ei les. Mae'r cod hwn yn esbonio beth sy'n rhaid ichi ei wneud i ofalu am anifail at y safon y mae'r ddeddf yn gofyn amdani. Os ydych yn rhiant ar blentyn o dan 16 oed, chi sy'n gyfrifol am unrhyw anifail y mae'r plentyn hwnnw'n berchen arno neu'n gyfrifol amdano.

Nid yw torri amodau'r Cod yn drosedd ynddo'i hun, ond os cewch eich erlyn am drosedd o dan y Ddeddf, gallai'r Llys ystyried i ba raddau rydych wedi cydymffurfio â'r cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu beidio neu a ydych wedi gofalu am yr anifail at y safon ofynnol. Ni ddylech beri i anifail ddioddef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd fwy difrifol o dan y Ddeddf.

I ddysgu mwy am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a manylion eich dyletswyddau, darllenwch Atodiad 2 ar ddiwedd y cod hwn. I gael gwybod ble i fynd am fwy o wybodaeth, darllenwch Atodiad 3.

Roedd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei disgrifio yn y cod ac yn Atodiad 2 yn gywir adeg cyhoeddi'r ddogfen hon ond cofiwch, fe all newid.

Nid yw'r rhagair hwn yn rhan o'r cod ond ei ddiben yw esbonio pwrpas ac amcanion bras y cod. Nid yw Atodiad 2 sy'n rhestru'r gofynion cyfreithiol perthnasol nac Atodiad 3 sy'n rhestru ffynonellau gwybodaeth eraill, chwaith yn rhan o'r cod.

**C ynnwys**


Cyflwyniad Tudalen 3

Pasbortau Ceffylau Tudalen 4

Y Ddyletswydd i Ofalu Tudalen 5

Adran 1: Amgylchedd Tudalen 7
*Yr angen am amgylchedd addas*

Adran 2: Deiet Tudalen 12
*Ei angen am ddeiet addas*

Adran 3: Ymddygiad Tudalen 16
*Ei angen i ddangos patrymau ymddygiad*

Adran 4: Cwmnïaeth Tudalen 17
*Ei angen i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân*

Adran 5: Iechyd a Lles Tudalen 18
*Ei angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd*

Atodiad 1

Clymu Tudalen 21

Atodiad 2

Y Gyfraith Tudalen 23

Atodiad 3

Ffynonellau Gwybodaeth Tudalen 27

## CYFLWYNIAD

Mae cadw ceffyl yn gallu rhoi llawer iawn o bleser a boddhad, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr iawn ac mae'n gofyn am ymrwymiad tymor hir o ran amser ac arian. Chi sy'n rheoli bywyd eich ceffyl; eich cyfrifoldeb chi felly yw gofalu am ei holl anghenion ym mhob sefyllfa. Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid ichi gymryd camau rhesymol i sicrhau:

- Bod ganddo amgylchedd addas i fyw ynddo;
- Ei fod yn cael deiet iach;
- Ei fod yn cael ymddwyn yn naturiol;
- Bod ganddo gwmni addas;
- Ei fod yn cael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd

Rydym yn esbonio hyn yn fanylach yn adrannau 1-5 y cod. Am fwy o wybodaeth, mynnwch air â'ch milfeddyg neu arbenigwr (e.e. nyrs filfeddygol, gwyddonydd ymddygiad neu gymdeithas lles anifeiliaid). Rydym wedi rhestru rhagor o ffynonellau gwybodaeth yn Atodiad 3.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth ichi ddod i adnabod eich ceffyl, fe ddewch i adnabod ei ffyrdd arbennig. Mae'n bwysig sylwi ar unrhyw newid yn ei ymddygiad gan y gallai fod yn arwydd bod rhywbeth yn bod.

Mae'r cod ymarfer yn cael ei gyhoeddi o dan adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"). Mae'r cod ymarfer hwn yn berthnasol i Gymru yn unig, caiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru a daw i rym ar 28 Tachwedd 2008. Mae'n ymdrin â phob ceffyl y gallai rhywun fod yn gyfrifol amdano.

Mae'r gair 'ceffyl' yn y Cod hwn yn cyfeirio at bob rhywogaeth o deulu'r ceffyl gan gynnwys ceffylau, merlod ac asynnod domestig a hybridau ohonynt, gan gynnwys mulod.

Mae'r gair 'ceidwad' yn golygu rhywun sy'n cael ei gyflogi gan berchennog y ceffyl i ofalu amdano o ddydd i ddydd. Bydd gan geffyl sy'n cael ei drin gan filfeddyg anghenion ychwanegol neu arbennig a bydd y rheini'n drech na gofynion y cod hwn.

Yn y cod hwn, mae "ceffyl gwaith" yn golygu unrhyw geffyl sy'n cael ei ddefnyddio am log, fel gwobr neu i ysgafnhau baich gwaith dyn.

**PASBORTAU CEFFYLAU**

Ers 28 Chwefror 2005, mae'n rhaid cael pasbort (Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005) ar gyfer pob ceffyl a merlyn yng Nghymru. Rhaid cael pasbort felly ar gyfer pob ceffyl, waeth beth yw ei oed a'i statws. Mae'n rhaid i berchennog pob ceffyl yng Nghymru gael pasbort ar gyfer pob ceffyl sydd ganddo. Y perchennog neu'r ceidwad sy'n gyfrifol am y pasbort ond rhaid cadw'r pasbort gyda'r ceffyl bob amser. Mae cyfyngiadau ar geffylau sydd heb basport:

- ni chewch eu symud i gystadlu mewn cystadleuaeth;
- ni chewch eu symud i fridio;
- ni chewch eu symud allan o’r Deyrnas Unedig;
- ni chewch eu symud i dir ceidwad newydd;
- ni chewch eu gwerthu na'u rhoi i berchennog newydd; ac
- ni chewch eu hanfon i'w lladd i'w bwyta gan bobl.

## Y DDYLETSWYDD I OFALU

Cyn prynu ceffyl, dylai darpar berchennog ystyried nifer o bwyntiau pwysig:

- Ydych chi wir am brynu ceffyl neu a fyddai'n well ichi ystyried opsiynau eraill fel cael benthyg ceffyl am gyfnod byr neu hir: gallai hynny fod yn fanteisiol os nad ydych yn siwr a ydych yn medru fforddio cadw ceffyl. Bydd hefyd yn rhoi profiad ichi o ofalu am geffyl a'i farchogaeth. Cofiwch gall ceffyl fyw am 40 o flynyddoedd ac mae'n ymrwymiad tymor hir!

- Gall pris prynu ceffyl fod yn fach o'i gymharu â chostau ei gadw. Bydd y costau hyn yn amrywio yn ôl anghenion y ceffyl, ble rydych yn ei gadw a beth yw diben y ceffyl. Dylai'r darpar berchennog lunio cyllideb ar sail ei amgylchiadau i weld a fydd yn gallu fforddio costau cadw'r ceffyl.

- Wrth lunio cyllideb, dylai'r perchennog gofio y bydd yna gostau heblaw'r costau pob dydd, fel porthiant ychwanegol, moddion llyngyr, yswiriant, milfeddyg (gan gynnwys brechu a gwaith deintyddol), pedoli, cyfarpar, cludiant, hyfforddi ac ati. Mae'n bwysig chwilio'n ofalus am yr anifail iawn i'w brynu gan y gallai hynny osgoi problemau yn y dyfodol. Nid oes unrhyw beth yn sicr ond mae nifer o bethau y gellwch eu gwneud i'ch helpu i gael hyd i geffyl sy'n addas i chi. Dylech edrych ar nifer o geffylau gwahanol er mwyn eu cymharu, a dylech wastad gofyn i rywun profiadol am ei farn. Cyn ei brynu, mae'n bwysig iawn eich bod yn cael gweld y ceffyl yn gwneud popeth y byddwch am iddo ei wneud i chi, er enghraifft hacio, neidio, gwaith ar y gwastad, ac rydym yn eich cynghori i weld eich hoff geffylau o leiaf ddwywaith. Dylech hefyd ofyn i'ch milfeddyg roi archwiliad pum cam llawn iddo.

- Faint o amser fydd gan y perchennog i ofalu am y ceffyl a'i ymarfer.

- Faint mae’r perchennog yn ei wybod am geffylau, a pha sgiliau sydd ganddo.

- Dylai'r perchennog ystyried ennill profiad o weithio gyda ceffylau mewn stablau neu drwy waith gwirfoddol.

- Dewis y brid iawn a cheffyl o natur sy'n addas i chi a'ch galluoedd h.y.
    - Ydych chi'n prynu ceffyl ar gyfer marchogaeth, cystadlu, gyrru neu fel anifail anwes?
    - Ydych chi'n brofiadol neu'n newydd i'r maes?
    - Gofynnwch i berchennog gwybodus neu i berchennog stablau am gyngor.
    - Ystyriwch yn ofalus oddi wrth bwy y dylech chi brynu'ch ceffyl. Os ydych chi'n mynd i fart ceffylau neu ddeliwr ceffylau, yna darllenwch yr amodau a'r telerau'n ofalus a gofynnwch am dderbynneb bob tro.
    - Bydd yn rhaid bod gan y ceffyl y byddwch yn ei brynu basbort. Mae hyn rheol gyfreithiol. Gofalwch eich bod yn cael gweld y pasbort ac yn ei astudio'n ofalus e.e. y silwét (diagram o farciau a lliwiau) a chymharwch y manylion â'r ceffyl rydych yn ei brynu. Ffoniwch y gymdeithas sydd wedi cyhoeddi'r pasbort i wneud yn siwr mai hi sydd

wedi'i darparu. Mae rhestr o'r cymdeithasau sy'n cael rhoi pasbortau ar wefan Llywodraeth y Cynulliad: http://www.cymru.gov.uk/animalhealth
  - Bydd rhyw ac oed y ceffyl y byddwch yn ei brynu yn cael effaith fawr ar sut y byddwch yn ei fagu, ei gartrefu, ei fwydo a'i weithio. Gofynnwch am gyngor cyn penderfynu.

- Sut a ble y byddwch yn ei gadw.

Dylai darpar berchennog ystyried hefyd pa gynlluniau wrth gefn ddylai fod ganddo; er enghraifft: stabl a chludiant ar gyfer ceffyl sy'n cael ei gadw mewn cae os bydd angen triniaeth filfeddygol ar frys arno; cyfleusterau ynysu; trefniadau i ofalu am y ceffyl os bydd rhywbeth yn digwydd i'r ceidwad. Dylech edrych eto ar eich cynlluniau pan fydd y perchennog, y ceidwad neu amgylchiadau'r ceffyl yn newid.

Yn ôl Adran 9 y Ddeddf, mae dyletswydd gyfreithiol ar y perchennog/ceidwad i ofalu am yr anifail y mae'n gyfrifol amdano. Hefyd, dywed adran 3 y Ddeddf bod dyletswydd ar unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail yn barhaol neu dros dro.

Felly y person sy'n berchen ar anifail neu sy'n gofalu amdano sy'n gyfrifol am yr anifail. Er hynny, mae perchennog yn dal i fod yn gyfrifol am yr anifail hyd yn oes os mai person arall sy'n gofalu amdano. Y rhiant neu'r gwarcheidwad sy'n gyfrifol am anifail sy'n eiddo i blentyn dan 16 oed neu sy'n cael ei ofalu gan y plentyn hwnnw. Mae hynny'n golygu mai oedolyn sy'n gyfrifol am yr anifail. Os bydd perchennog yn gadael anifail yng ngofal rhywun arall, dyletswydd y perchennog yw sicrhau bod y ceidwad yn gymwys i ofalu amdano ac am roi'r awdurdod iddo weithredu mewn argyfwng.

Mae bod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys deall anghenion iechyd a lles penodol yr anifail a meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i ofalu amdano. Bydd gofyn i'r rheini sy'n gyfrifol am yr anifail gadw at y ddeddf, gwybod am y Codau Ymarfer priodol, a gwybod hefyd pryd i ofyn i arbenigwr am ei farn a'i help ac at bwy i droi e.e. pedolwr, deintydd ceffylau neu filfeddyg.

Bydd gan geffylau gwaith ofynion arbennig na fydd eu hangen ar geffylau anwes; dylech gadw'r anghenion ychwanegol hyn mewn cof.

Cewch fwy o wybodaeth am amodau lles y Ddeddf a mwy o fanylion am gyfrifoldebau perchennog neu geidwad ceffyl yn y dogfennau a restrir yn y "Ffynonellau Gwybodaeth" ar ddiwedd y Cod Ymarfer hwn.

Mae'r Cod hwn yn disgrifio'r anghenion hyn yn fanylach; wedi dweud hynny, gall fod ar geffyl unigol anghenion eraill y dylech eu diwallu er ei les. **Os nad ydych yn siwr beth allai'r rhain fod, holwch eich milfeddyg neu gymdeithas fel Cymdeithas Ceffylau Prydain, World Horse Welfare neu'r RSPCA.** Mae cyfeiriadau a rhifau ffôn y cymdeithasau hyn i'w gweld o dan 'Ffynonellau Gwybodaeth' ar ddiwedd y Cod Ymarfer hwn. Os oes gennych gwestiwn am les ceffyl cystadlu, holwch gymdeithas y gamp dan sylw.

## Adran 1: Amgylchedd

### *Yr angen am amgylchedd addas*

**1.1 Mae’r adran hon yn cynnig cyngor ar sut i roi lle addas i’ch ceffyl fyw ynddo.**

### Cysgod

**1.2** Nid oes angen stabl/to ar bob ceffyl. Mae gan rai bridiau caled (fel ein merlod brodorol) drwch o flew ac felly'n gallu byw yn yr awyr agored gydol y flwyddyn, cyn belled â'u bod yn cael cysgod rhag gwyntoedd cryf, haul yr haf a chlêr. Gall y cysgod hwnnw fod yn gysgod naturiol (e.e. coed a pherthi) neu artiffisial (e.e. lloches mewn cae) gan ddibynnu ar natur y cae a'r math o geffyl. Ond os nad yw'r ceffyl o frid mor wydn (h.y. gwaed pur), os yw'n wedi'i glipio, yn ifanc iawn neu'n hen, bydd angen stabl/to arno neu gysgod arall i'w amddiffyn rhag yr oerfel a'r gwlybaniaeth a thywydd twym iawn.

### Stablau/Llociau

**1.3** Dylech ystyried lles y ceffyl wrth godi neu addasu adeilad i'w gadw ynddo. Y prif ystyriaethau yw diogelwch a chysur y ceffyl a rhaid iddo fod yn rhwydd mynd iddo ac wedi'i ddraenio a'i awyru'n iawn. Os nad yw o ddyluniad da, neu os nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw, gall stabl gyfrannu at ledaenu clefydau ac at achosi anafiadau a thanau. Dylai gydymffurfio â'r argymhellion yn y "Canllaw Llywodraeth Gymunedol a Lleol ar Ddiogelwch Tân mewn Sefydliadau Cadw Anifeiliaid a Stablau". Mae'r pwyntiau canlynol i gyd yn berthnasol i bob math o adeilad cadw ceffylau, gan gynnwys stablau, stalau, llociau ac ysguboriau.

- <u>Adeiladwaith</u>: dylai'r stabl fod yn gryf ei adeiladwaith, heb ddarnau sy'n sticio allan nac arwynebau allai achosi niwed. Rhaid i bob arwyneb fod yn hawdd ei lanhau a'i ddiheintio. Os ydych am drin arwynebau, gofalwch eich bod yn defnyddio paent neu hylif pren diwenwyn.

- <u>Celfi a ffitiadau:</u> fel cylchoedd clymu, cratshiau gwair a chafnau dŵr - gofalwch nad oes ymylon miniog iddynt a'ch bod yn eu lleoli'n ofalus fel na all y ceffyl anafu'i hun, yn enwedig ei lygaid, arnynt. Os oes gennych rwyd wair, dylech ei gosod yr un uchder â phen y ceffyl er mwyn iddo allu bwydo'n gyfforddus heb faglu drosti na dal ei ffrwyn ynddi.

- <u>Lloriau:</u> dylent fod yn weddol wastad, yn anodd llithro arnynt ac wedi'u draenio'n dda fel bod unrhyw ddŵr yn llifo oddi wrth y ceffyl.

- <u>Drysau:</u> dylent fod o leiaf 4tr o led, ac wedi'u rhannu'n ddrws isaf a drws uchaf. Rhaid iddynt agor tuag allan ac ni ddylai'r drws isaf fod mor uchel fel na all y ceffyl neu'r merlyn edrych allan drosto'n gyfforddus. Dylai fod gan y rhan uchaf a'r rhan isaf folltiau unigol.

- <u>Toeon:</u> dylent fod yn ddigon uchel i aer fedru cylchredeg yn rhwydd. Dylai fod o leiaf 2-3tr (60-90cm) o ofod clir rhwng blaen clustiau'r ceffyl (ei osgo arferol) a'r bondo.

- <u>Goleuni</u>**:** rhaid wrth ddigon o olau yn y stabl i'r ceffyl allu gweld digon ac ichi allu archwilio a thrin y ceffyl yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys golau cludadwy. Dylid rhoi cawell ddiogelwch o amgylch bylbiau, a rhaid gosod y ceblau'n ddiogel allan o gyrraedd y ceffyl.

- <u>Ffenestri a rhwyllau/slatiau awyru:</u> dylent adael i'r aer gylchredeg heb greu drafftiau. Ffenestri diogelwch neu Perspex (gyda bariau rhwng y ceffyl a'r gwydr) sydd orau. Dylai un ffenest neu'r drws uchaf fod ar agor trwy'r amser.

**1.4** Gan fod ceffylau a merlod yn amrywio gymaint o ran maint, mae'n anodd dweud beth yw lloc, ysgubor neu stabl perffaith ei faint. Fodd bynnag, dylai bod gan bob ceffyl O LEIAF ddigon o le i orwedd, codi'n rhwydd a throi o gwmpas yn gyfforddus. Mae angen llociau mwy ar gesyg sy'n esgor a chesyg ag ebol. Dylai pob pasej fod yn ddigon llydan ichi allu arwain y ceffyl yn ddiogel heibio i geffylau eraill. Y lloc lleiaf sy'n cael ei argymell ar gyfer ceffylau yw 12tr wrth 12tr a 10tr wrth 10tr ar gyfer merlod. Dylai lloc esgor fod o leiaf 14tr wrth 14tr. Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymell y dimensiynau canlynol fel y rhai lleiaf ar gyfer stabl:

- Ceffylau – 12tr x 12tr (3.65m x 3.65m)
- Ceffylau mawr – 12tr x 14tr (3.65m x 4.25m)
- Merlod – 10tr x 10tr (3.05m x 3.05m)
- Merlod mawr – 10tr x 12tr (3.05m x 3.65m)

**1.5** Gellir cadw grwpiau o ceffylau gyda'i gilydd mewn ysguboriau ond gofalwch fod pob ceffyl yn cael digon o wair, bwyd a dŵr. Dylai fod ganddyn nhw ddigon o le i symud yn rhwydd ynddo ac i bob ceffyl allu gorwedd yr un pryd. Dewiswch grwpiau sy'n gallu cyd-fyw'n hapus â'i gilydd a dylech gadw ceffylau arbennig o ffyrnig ar wahân.

**1.6** Bydd angen digon o sarn neu ddeunydd gorwedd addas ym mhob stabl, lloc ac ati i gadw'r ceffylau'n gynnes, eu diogelu rhag anaf ac iddynt orwedd yn gyfforddus. Dylai'r deunydd fod yn ddiwenwyn, heb lwch na llwydni, a bydd yn draenio'n rhwydd neu'n amsugno digon i gadw'r llawr yn sych a helpu i gadw'r aer yn ffres. Os ydych yn defnyddio mat rwber, dylech roi ychydig o sarn arno i amsugno'r wrin. Pa fath bynnag o sarn rydych chi'n ei ddefnyddio (e.e. gwellt, naddion, matiau rwber), dylech ofalu amdano a'i newid neu ei lanhau'n rheolaidd.

**1.7** Mae tân wastad yn berygl mewn stabl. Dylech ofyn i'r Swyddog Atal Tanau lleol beth yw'r gofynion statudol. Dylech gadw offer a gwasanaethau (unedau goleuo, diffoddyddion tân a larymau) yn lân ac mewn cyflwr da a dylai swyddog cymwys eu harchwilio bob blwyddyn. Rhaid defnyddio trydanwr i osod, cynnal a chadw ac archwilio a phrofi gosodiadau trydan ar y brif foltedd, yn unol ag argraffiad diweddaraf rheoliadau weirio'r Institute of Electrical Engineers (IEE). Rhaid i'r weiars a'r offer fod allan o gyrraedd y ceffylau, rhaid eu hynysu'n drylwyr a'u diogelu rhag llygod a'u daearu'n gywir. Rhaid daearu

hefyd bibellau metel a gwaith adeiladu o ddur. Gallech leihau'r perygl o dân a thrydaneiddio trwy ddiogelu'r holl waith trydan â dyfais cerrynt gweddillol (RCD). Ni ddylech gadw hylif fflamadwy na deunydd llosgadwy ar gyfyl stabl. Dylech olchi trawstiau a silffoedd eraill yn rheolaidd. Ni ddylech adael i neb smygu yn y stabl na'r cyffiniau.

**1.8** Dylech allu rhyddhau'r ceffylau'n gyflym ac yn rhwydd pe bai yna dân neu argyfwng arall, gan ddilyn cynllun rhyddhau y byddwch wedi'i lunio ymlaen llaw.

**Caeau pori**

**1.9** Fel rheol y fawd, dylech roi o leiaf erw i erw a hanner (0.4047-06 hectar) o dir pori da i bob ceffyl os nad ydych yn rhoi unrhyw fwyd ychwanegol iddo. Fodd bynnag, fe fydd hyn yn dibynnu ar gyflwr y tir, amser y flwyddyn, y math o geffyl a pha mor drylwyr rydych yn rheoli'r tir. Gallai darn llai o dir wneud y tro os ydych yn cadw'ch ceffyl dan do fel arfer ac yn ei droi allan yn awr ac yn y man.

**1.10** Nid yw wastad yn bosibl nac yn ymarferol dod â cheffyl o gae sy'n troi'n fawlyd, ond mae hi'n bwysig iawn bod gan y ceffyl le cyfforddus a sych i orwedd a sefyll, ac i gael ei fwydo a'i ddwrhau arno.

**1.11** Dylai'r ffensys fod yn ddigon cryf ac uchel i rwystro'r ceffyl rhag dianc (efallai y bydd angen ffens uwch ar farch) ac wrth eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal, gofalwch nad oes perygl iddyn nhw niweidio'r ceffyl. Dylai bylchau fod yn rhwydd a diogel i geffylau fynd trwyddynt, a dylai gatiau fod yn sownd rhag anafu'r ceffyl na'i adael i ddianc. Weithiau, bydd angen rhoi clo ar y gatiau. Ni ddylech ddefnyddio weiar bigog ar gae gyda cheffylau ynddo, ac os ydych yn defnyddio weiar blaen, gofalwch fod y ceffyl yn gallu'i weld.

**1.12** Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymell y dylai ffensys fod o leiaf 4tr (1.25m) o uchder, ond maen nhw wedi cyhoeddi canllawiau manylach:

- Ceffylau – 3tr6” – 4tr6” (1.08m – 1.38m)
- Merlod – 3tr3” – 4tr3” (1m - 1.3m)
- Rheilen isaf (ar gyfer y ddau) - 1tr6" (0.5m) uwch y ddaear
- Meirch - 4tr6” i 6tr (1.5m - 1.8m)

Efallai y dylech godi ffens ddwbl os oes gennych farch a rhoi weiran drydan ar hyd top y rheilen uchaf sydd nesaf at y cae. Byddai hynny'n ei rwystro rhag bod yn gas neu'n orgariadus â cheffylau mewn caeau cyffiniol, yn ogystal â chadw'r march yn ei briod gae.

**1.13** Ni ddylai ffens drydan achosi mwy nag eiliad o anesmwythyd i geffyl sy'n cyffwrdd â hi; gofalwch fod yr unedau pwer wedi'u daearu'n briodol. Bydd angen ichi gadw golwg ar geffylau sy'n cael eu cadw rhag crwydro gan ffens drydan nes eu bod yn dod yn gyfarwydd â hi. Gallech ddefnyddio tâp trydan a physt plastig i rannu cae dros dro ac mae tâp trydan yn creu rhwystr mewnol effeithiol, ond ni ddylech eu defnyddio fel yr unig rwystr ar derfyn cae.

**1.14** Rydym yn eich cynghori i ddilyn rhaglen rheoli dda rhag i'r ceffylau orbori'r tir, er mwyn rheoli llyngyr, i gadw'r cae'n sych ac i reoli chwyn. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys casglu'r dom, cylchdroi'r rhannau pori a lle medrwch, mynd â'r ceffyl o'r cae pan fydd hi'n wlyb iawn rhag iddo stablad y tir (h.y. sathru'r tir yn fwd) ac achosi problemau iechyd.

**1.15** Dylech godi unrhyw beth peryglus a phlanhigion gwenwynig o'r cae. Llysiau'r gingroen yw un o'r planhigion sy'n cael ei restru yn Neddf Chwyn 1959 a chafodd y "Côd Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen" ei gyhoeddi yn 2006. Mae'n bosibl gweld mathau eraill o lysiau'r gingroen yng Nghymru - creulys llwyd, creulys y gors a chreulys Rhydychen - ac maen nhw i gyd yn wenwynig i geffylau. **Dylech eu codi a'u difetha'n ofalus, pa le bynnag y'u gwelwch, trwy eu llosgi neu eu claddu mewn tomen tirlenwi. Mae pob rhan o'r planhigyn yn wenwynig a dylech wisgo menig wrth eu trin. Ni ddylech adael torion lle gallai ceffylau gael gafael arnyn nhw gan eu bod yn dal i fod yn wenwynig ar ôl eu torri.**

**1.16** Mae planhigion eraill fel yr ywen a'r tresi aur yn wenwynig iawn i geffylau hefyd. Mae'n bwysig eich bod yn eu cadw nhw a'u torion o gyrraedd ceffylau bob amser. Os ydy'ch caeau'n ffinio â thai, mae'n bwysig eich bod yn gofalu nad yw ceffylau'n cael mynd at dorion gardd gan gynnwys torion lawnt.

## Clymu

**1.17** Mae tennyn yn cael ei ddefnyddio i glymu anifail wrth angorfa neu ganolbwynt er mwyn ei gadw o fewn ffiniau penodol. Nid yw clymu ceffyl wrth dennyn yn ffordd addas i reoli ceffyl am gyfnod hir, gan ei fod yn ei rwystro rhag ymarfer corff, chwilio am fwyd a dŵr, dianc rhag cŵn a chwilio am gysgod rhag tywydd oer neu dwym. Mae perygl hefyd i'r ceffyl faglu ac anafu ei hun. Gallai clymu ceffyl wrth dennyn fod yn ffordd dda o reoli'r anifail am gyfnod byr iawn yn ystod seibiant ar daith, i rwystro'r ceffyl rhag anafu ei hun neu bobl, tra bod trefniadau mwy tymor hir yn cael eu gwneud, neu pan fydd milfeddyg yn cynghori bod angen cyfyngu'r hyn mae'r ceffyl yn ei fwyta. Rhaid cadw golwg fanwl ar y ceffyl tra ei fod wedi'i glymu. Cewch fwy o wybodaeth am yr amodau y dylech eu bodloni wrth glymu ceffylau yn Atodiad 1. Nid yw 'clymu' yn y cyd-destun hwn yn golygu ceffylau sydd wedi'u clymu yn eu llociau (ffordd gyffredin o gadw ceffylau'r cafalri). Os ydych yn clymu'ch ceffyl mewn stâl, dylech roi ymarfer corff iddo'n rheolaidd oni bai'ch bod yn ei gadw fel hyn o dan gyngor milfeddyg (e.e. fel rhan o driniaeth i salwch yn yr esgyrn).

## Rygiau

**1.18** Ni fydd angen ryg ar bob ceffyl mewn tywydd cas gan fod gan rai bridiau got drwchus ac yn gallu byw allan mewn pob tywydd heb ryg trwy'r flwyddyn. Mae rhai o'r bridiau caled hyn yn hapusach heb ryg gan fod rygiau'n gallu crafu'r croen. Fodd bynnag, os nad yw'ch ceffyl o frid mor wydn, os ydych yn ei glipio neu os yw'n oedrannus, efallai y bydd angen ryg arno i'w gadw'n gynnes ac yn sych mewn tywydd oer a gwlyb ac i'w amddiffyn rhag clêr. Bydd angen tynnu'r ryg pan fydd y tywydd yn cynhesu.

**1.19** Gofalwch fod y ryg a'r capan yn ffitio'r ceffyl, eu bod yn addas at y diben, nad ydyn nhw'n rhy drwm nac yn rhy ysgafn, eu bod yn ei amddiffyn rhag y tywydd a'ch bod yn eu gosod yn gywir fel nad ydyn nhw'n crafu'r ceffyl, yn ei glwyfo nac yn codi'r blew. Dylech dynnu'r ryg yn rheolaidd er mwyn gweld bod popeth yn iawn. Yn ddelfrydol, gwnewch hynny bob dydd.

**1.20** Dylech lanhau'r rygiau'n rheolaidd, ac os oes angen, eu trwsio gan ofalu bod yr holl offer clymu yn gweithio'n iawn. Dylai fod gennych ryg sbâr er mwyn ichi allu sychu ryg gwlyb.

**Cadw Golwg ar eich Ceffyl**

**1.21** Dylech fwrw golwg ar geffyl sy'n cael ei gadw mewn cae o leiaf unwaith bob dydd os nad yn amlach. Dylech fynd i weld ceffyl mewn stabal neu geffyl sy'n cael ei gadw gyda cheffylau eraill mewn ysgubor o leiaf ddwywaith bob dydd, ac yn amlach os medrwch. Cadwch olwg yn arbennig ar ei gerddediad, ei hwyl, ei draed, cyflwr ei gorff a'i archwaeth fel eich bod yn gweld unrhyw arwydd o glefyd, anaf, salwch neu baraseit yn gyflym. Dylech ei archwilio'n fanylach bob hyn a hyn i allu gweld problem (e.e. anhwylder ar y croen) na fydd yn amlwg o bell.

**1.22** Dylech grafu gwaelod ei garnau bob dydd gan graffu am arwyddion o boen, clwyfau, pedolau llac ac am unrhyw beth anarferol.

**1.23** Heblaw am geffyl sydd allan yn pori sydd ond yn gwneud gwaith ysgafn iawn, dylech ei gribo'n rheolaidd ond ddim yn ormodol (rhag codi'r olew sy'n amddiffyn y blew) i gadw'r got yn lân, yn ddi-glwyf ac yn ddi-baraseit ac i ofalu nad yw rygiau, cyfrwyau a harneisiau wedi gwneud niwed.

## Adran 2: Deiet
***Ei angen am ddeiet addas***

**2.1 Mae’r adran hon yn rhoi cyngor ar roi deiet addas i’ch ceffyl.**

### Bwyd

**2.2** Wrth reddf, bydd ceffyl yn bwyta 'bob yn damaid' yn aml. Ei fwyd naturiol yw porfa, sy'n fwyd bras sy'n brin o ynni. Dylai ceffylau gael deiet gytbwys gyda llawer o ffeibr ynddo: naill ai porfa, gwair, gwywair neu ffugwair er mwyn atgynhyrchu mor agos â phosibl ei fwyd naturiol. Dylech roi deiet iddo sy'n adlewyrchu ei anghenion ac sy'n ei gadw mewn cyflwr da. Dylech ystyried ei oed, ei frid, ei bwysau, ei gyflwr, ei iechyd a faint o waith y mae'n ei wneud.

**2.3** O gael porfa dda i'w phori, dylai gael digon o frasfwyd a mwynau; os nad oes ganddo borfa dda, dylech roi bwyd ychwanegol iddo. I rwystro'ch ceffyl rhag pori cae mawr cyfan, gallech rannu'r cae trwy ddefnyddio ffens drydan.

**2.4** Gofalwch fod unrhyw fwyd sydd wedi'i gywain (gwair, gwywair ac ati) o safon uchel; dylai fod yn lân (heb bridd, sbwriel na phlanhigion gwenwynig), dylai arogli'n ffres a bod heb lwch na llwydni. Cyn belled â bod y llawr yn rhesymol o lân, mae'n syniad da ei fwydo ar y llawr gan fod hynny'n dda i iechyd anadlu'r ceffyl. Mae'n golygu hefyd bod y ceffyl yn bwydo fel pe bai'n pori.

**2.5** Ni ddylech roi mwy o ddwysfwyd (nid yw hynny'n cynnwys bwyd fel tsiaff a betys siwgr) yn ychwanegol at y borfa y mae'n ei bori neu'r gwair y mae'n ei gael nag sydd ei angen ar y ceffyl ar gyfer y math o waith y mae'n ei wneud neu gyflwr ei gorff. Dylech gymysgu pob pryd yn dda a'i baratoi o'r newydd. Peidiwch â gwneud i'ch ceffyl weithio'n galed neu'n gyflym ar stumog lawn.


**2.6** Mae'n bwysig eich bod yn prosesu'r bwyd yn iawn ac yn ei drin yn ofalus rhag iddo ddifetha a cholli'i werth. Mae’n bwysig hefyd ei gadw’n ddiogel rhag llygod a chadw’r casgenni bwyd a'r offer bwydo'n lân rhag denu llygod. Dylech daflu bwyd sydd wedi'i lygru neu sydd wedi troi neu wedi llwydo a pheidio â'i roi i'ch ceffyl.

**2.7** Ar gyfer grŵp o geffylau mewn sgubor, dylai fod lle bwydo ar gyfer pob ceffyl, ac un lle ychwanegol. Gofalwch fod hyd dau geffyl o led rhwng pob man bwydo rhag i'r ceffylau anafu'u hunain wrth gystadlu am fwyd.


**2.8** Cadwch olwg ar bwysau a chyflwr y ceffylau er mwyn osgoi problemau lles ac er mwyn gallu newid y bwyd os ydyn nhw'n mynd yn rhy dew neu'n rhy denau. Mae'n bwysig wrth ei fwydo eich bod yn trin pob ceffyl fel unigolyn a'ch bod yn paratoi deiet sy'n ateb ei ofynion. Gordewdra a gorfwyta yw prif achos laminitis. Ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, bydd anifeiliaid tew'n fwy tueddol o gael laminitis. Mae'r risg yn arbennig o fawr os ydych chi'n troi ceffyl tew allan i borfa newydd y gwanwyn sy'n llawn ynni. Efallai felly y bydd gofyn cyfyngu ar beth mae'n cael ei bori.

## Body Condition Scoring - Horses


0 Very Poor




1 Poor




2 Moderate




3 Good



4 Fat



5 Very Fat



Copyright NEWC April 2003

# Body Condition Scoring - Horses

| C/S | Pelvis | Back and Ribs | Neck |
|---|---|---|---|
| 0 Very Poor | Angular, skin tight. Very sunken rump. Deep cavity under tail. | Skin tight over ribs. Very prominent and sharp backbone. | Marked ewe neck. Narrow and slack at base. |
| 1 Poor | Prominent pelvis and croup. Sunken rump but skin supple. Deep cavity under tail. | Ribs easily visible. Prominent back-bone with sunken skin on either side. | Ewe neck, narrow and slack base. |
| 2 Moderate | Rump flat either side of back bone. Croup well defined, some fat. Slight cavity under tail. | Ribs just visible. Backbone covered but spines can be felt. | Narrow but firm. |
| 3 Good | Covered by fat and rounded. No gutter. Pelvis easily felt. | Ribs just covered and easily felt. No gutter along the back. Backbone well covered but spines can be felt. | No crest (except for stallions) firm neck. |
| 4 Fat | Gutter to root of tail. Pelvis covered by fat. Need firm pressure to feel. | Ribs well covered - need pressure to feel. | Slight crest Wide and firm. |
| 5 Very Fat | Deep gutter to root of tail. Skin distended. Pelvis buried, can-not be felt. | Ribs buried, cannot be felt. Deep gutter along back. Back broad and flat. | Marked crest very wide and firm. Fold of fat. |

(Based on the Carroll and Huntington Method)


To obtain a body score, score the pelvis first, then adjust by half a point if it differs by one point or more to the back or neck.

Copyright NEWC April 2003


## Body Condition Scoring - Donkeys

**Reproduced with the permission of the Donkey Sanctuary**


1. POOR




2. MODERATE




3. IDEAL



4. FAT



5. OBESE



Fat deposits may be unevenly distributed especially over the neck and hindquarters. Some resistant fat deposits may be retained in the event of weight loss and/or may calcify (harden). Careful assessment of all areas should be made and combined to give an overall score.

Copyright NEWC April 2003

# Body Condition Scoring - Donkeys

| C/S | NECK AND SHOULDERS | WITHERS | RIBS AND BELLY | BACK AND LOINS | HIND-QUARTERS |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. POOR | Neck thin, all bones easily felt. Neck meets shoulder abruptly, shoulder bones easily felt, angular. | Dorsal spine of withers prominent and easily felt. | Ribs can be seen from a distance and felt with ease. Belly tucked up. | Backbone prominent, can feel dorsal and transverse processes easily. | Hip bones visible and felt easily (hock and pin bones). Little muscle cover. May be cavity under tail. |
| 2. MODERATE | Some muscle development overlying bones. Slight step where neck meets shoulders. | Some cover over dorsal withers. Spinous processes felt but not prominent. | Ribs not visible but can be felt with ease. | Dorsal and transverse processes felt with light pressure. Poor muscle development either side midline. | Poor muscle cover on hindquarters, hip bones felt with ease. |
| 3. IDEAL | Good muscle development, bones felt under light cover of muscle/fat. Neck flows smoothly into shoulder, which is rounded. | Good cover of muscle/fat over dorsal spinous processes, withers flow smoothly into back. | Ribs just covered by light layer of fat/muscle, ribs can be felt with light pressure. Belly firm with good muscle tone and flattish outline. | Cannot feel individual spinous or transverse processes. Muscle development either side of midline is good. | Good muscle cover in hindquarters, hip bones rounded in appearance, can be felt with light pressure. |
| 4. FAT | Neck thick, crest hard, shoulder covered in even fat layer. | Withers broad, bones felt with firm pressure. | Ribs dorsally only felt with firm pressure, ventral ribs may be felt more easily. Overdeveloped belly | Can only feel dorsal and transverse processes with firm pressure. Slight crease along midline. | Hindquarters rounded, bones felt only with firm pressure. Fat deposits evenly placed. |
| 5. OBESE | Neck thick, crest bulging with fat and may fall to one side. Shoulder rounded and bulging with fat. | Withers broad, unable to feel bones. | Large, often uneven fat deposits covering dorsal and possibly ventral aspect of ribs. Ribs not palpable. Belly pendulous in depth and width. | Back broad, unable to feel spinous or transverse processes. Deep crease along midline bulging fat either side. | Cannot feel hip bones, fat may overhang either side of tail head, fat often uneven and bulging. |

Half scores can be assigned where donkeys fall between scores. Aged donkeys can be hard to condition score due to lack of muscle bulk and tone giving thin appearance dorsally with dropped belly ventrally, while overall condition may be reasonable.

**Dŵr**

**2.9** Mae'n bwysig iawn bod dŵr glân ffres ar gael i bob ceffyl bob amser neu o leiaf bod digon o ddŵr glân yn cael ei roi iddo'n aml ac yn rheolaidd gydol y dydd. Nid yw ffynonellau dŵr naturiol fel nentydd wastad yn addas gan fod rhai wedi'u llygru. Os na allwch fod yn siwr bod y dŵr naturiol yn lân, bod digon ohono, ei bod yn rhwydd i'r ceffyl fynd ato ac nad yw'n gorwedd ar wely o dywod all gorddi wrth i'r ceffyl yfed, bydd angen dŵr o ffynhonnell arall arnoch. Bydd angen bod yn ofalus mewn tywydd twym neu rewllyd i gynnal y cyflenwad dŵr, er enghraifft, trwy dorri'r iâ pan fydd y tywydd yn oer neu drwy roi mwy o ddŵr mewn tywydd twym. Efallai y bydd angen dŵr ychwanegol ar ôl gwaith corfforol.

**2.10** Gofalwch fod y cafn dŵr yn sownd wrth ei sylfeini a bod ceffylau bach a mawr yn gallu yfed ohono'n gyfforddus. Ni ddylai fod mor isel chwaith fel bod ceffyl yn gallu stablad y dŵr neu droi'r cafn. Ni ddylai fod corneli na darnau miniog arno a rhowch gorchudd am y tapiau. Glanhewch y cafnau dŵr yn rheolaidd rhag i alga grynhoi yn y dŵr. Wrth osod y cafn, gofalwch na fydd modd i'r ceffyl gael ei ddal neu ei gornelu a mynd yn sownd. Os ydych yn defnyddio pwcedi, gofalwch fod dŵr ynddyn nhw'n rheolaidd.

## Adran 3: Ymddygiad

***Ei angen i ddangos patrymau ymddygiad***

**3.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar ymddygiad eich ceffyl.**

### Ymarfer corff

**3.2** Mae angen ymarfer corff neu'r rhyddid i ymarfer corff ar bob ceffyl a merlyn, a bydd angen i'r perchennog neu'r ceidwad roi amser a gwaith i sicrhau hynny. Dylai ceffylau sy'n cael eu cadw mewn stabl gael ymarfer bob dydd (eu marchogaeth neu eu gweithio ar dennyn) neu cael lle i gael ymarfer bob dydd, oni bai bod milfeddyg wedi dweud yn wahanol.

**3.3** Dylai ceffylau gwaith gael cymhareb ymarfer o 1 awr ym mhob 6 i allu ymddwyn yn naturiol.

### Hyfforddiant

**3.4** Mae ar geffylau angen gael eu trafod yn dawel, yn gyson ac yn garedig gan bobl gymwys. Maen nhw'n ymateb orau i law gadarn ond addfwyn ac i wobrau am wneud pethau'n iawn.

**Adran 4: Cwmnïaeth**
**Ei angen i gael ei gadw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân**

**4.1 Mae'r adran hon yn rhoi cyngor ar roi cwmnïaeth addas i'ch ceffyl**

**Cyfle i gymdeithasu**

**4.2** Mae ceffylau'n anifeiliaid heidiol ac mae'n well ganddynt fyw mewn greoedd (grwpiau). Yn ddelfrydol, dylen nhw gael cymdeithasu â cheffylau eraill, ond os nad yw hynny'n bosibl, gwnaiff anifeiliaid eraill y tro. Maen nhw hefyd yn mwynhau cwmni pobl. Felly os ydych yn cadw ceffyl ar ei ben ei hun, cofiwch y bydd angen eich cwmni arno. Mae asynnod yn arbennig yn mofyn cwmni ac maen nhw'n gallu clafychu heb gwmnïaeth.

**4.3** Dylech wastad trin eich ceffyl fel unigolyn, hyd yn oed os ydych yn ei gadw mewn grŵp mawr o geffylau. Wrth ffurfio grwpiau newydd, byddwch yn ofalus rhag iddyn nhw fynd i ymladd â'i gilydd na'u rhoi dan straen, yn enwedig os ydych chi am iddyn nhw gymysgu â'i gilydd. Gallwch leihau'r peryglon trwy roi mwy o le iddyn nhw neu trwy gadw anifeiliaid mewn lloc am gyfnod wrth ymyl y grŵp neu tynnu pedolau ôl yr holl anifeiliaid yn ystod y cyfnod cynefino. Gyda'r math hwn o system, mae'n arbennig o bwysig gwahanu ceffylau arbennig o gecrus; ni ddylech gymysgu ceffylau mewn cae neu ysgubor os oes un unigolyn arbennig o ffyrnig. Dylech gadw unigolion cecrus fel meirch (ifanc a llawndwf) a meirch sydd â'u ceilliau heb gwympo neu geffyl sydd heb ei sbaddu'n llwyr ar wahân. Mewn ysguboriau cymunedol, dylech wahanu hefyd gesyg cyfeb neu gesyg sydd ag ebol wrth droed. Wrth fyw mewn grwpiau, mae ceffylau wastad yn datblygu 'trefn bigo' felly cadwch olwg am fwlian. Mae'n bwysig gofalu bod y ceffylau mwyaf israddol yn cael y bwyd a'r dŵr sydd eu hangen arnyn nhw.

**4.4** Fel rheol y fawd, mwya'n y byd o geffylau rydych yn eu cadw, mwya'n y byd o amser, ymdrech ac adnoddau sydd eu hangen i ofalu am eu lles. Mae maint y grŵp hefyd yn bwysig. Mwya'n y byd yw'r grŵp, mwya'n y byd fydd y gystadleuaeth am fwyd, dŵr, cysgod a safle cymdeithasol.

## Adran 5: Iechyd a Lles

***Yr angen i gael ei amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd***

**5.1 Mae'r adran hon yn cynnig cyngor ar iechyd a lles eich ceffyl.**

### Disgyblu ac Ymatal

**5.2** Mae'n drosedd gwneud neu gadael i anifail ddioddef heb angen, felly rhaid i unrhyw ddisgyblu fod yn briodol, yn amserol, yn rhesymol ac yn gymesur. Yn yr un modd, rhaid i unrhyw ddull ymatal a ddefnyddir i reoli neu drin ceffyl fod y dull mwynaf a mwyaf effeithiol, a dim ond person cymwys ddylai ei roi, a hynny am y cyfnod byrraf posibl. Peidiwch â defnyddio cyffuriau tawelu heb gyngor milfeddyg. Ni ddylech gadw ceffyl mewn corlan gron na man wedi'i hamgau gan ffens drydan am gyfnod hir a byth er mwyn ei ddisgyblu.

### Afiechyd

**5.3** Dylai pawb sy'n gyfrifol am ofalu am geffyl allu adnabod arwyddion afiechyd a gwybod sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol i geffyl. Mae'n bwysig bod y perchennog a'r ceidwad yn gallu cysylltu'n rhwydd â milfeddyg i ddiagnosio neu i drin salwch, anaf neu glefyd. Rhaid cadw rhifau ffôn ac ati wrth law, gan gynnwys manylion ar ôl oriau. Dylech gadw pasbort y ceffyl yn gyfleus, oherwydd hebddo, ni fydd modd rhoi ambell driniaeth.

**5.4** Dylai perchnogion a cheidwaid wybod beth yw ymddygiad naturiol a gallu adnabod arwyddion afiechyd. Mae'r rheini'n cynnwys:

- colli archwaeth (colli awydd am fwyd a dŵr);
- newid yn natur y tail;
- newid yn ymddygiad a natur y ceffyl;
- colli graen; ac
- unrhyw arwydd o boen neu anaf neu gloffni.

**5.5** Pan fydd ceffyl i'w weld yn anhwylus, dylech chwilio am yr achos a chymryd camau i'w wella ar unwaith. Dylech gysylltu â'ch milfeddyg os ydy'r ceffyl i'w weld yn sâl neu mewn poen ac nad yw'r achos yn amlwg neu os nad yw'r cymorth cyntaf yn gweithio. Os oes problem gyda thraed y ceffyl, dylech gysylltu â phedolwr cofrestredig neu â milfeddyg. Dylech ddilyn cyngor y milfeddyg neu'r pedolwr yn fanwl.

**5.6** Dylech gysylltu â'r milfeddyg ar unwaith os ydy'r ceffyl yn dost o gloff, yn methu codi, yn dioddef poen mawr, yn cael trafferth anadlu neu os oes ganddo glwyfau agored neu glwyfau dwfn.

### Gofal iechyd cyffredin

**5.7** Ar ôl holi milfeddyg neu berson cymwys arall, dylech lunio rhaglen i reoli paraseitiaid; gallai hynny gynnwys rhoi cyffuriau lladd llyngyr, a chyfri'r wyau

llyngyr yn y tail. Mae gofalu am y cae pori gan gynnwys cylchdroi'r pori a chasglu tail fod yn rhannau pwysig o raglen effeithiol i reoli paraseitiaid.

**5.8** Gyda grŵp o geffylau, mae'n well defnyddio'r un driniaeth i ladd llyngyr ar yr holl geffylau i gyd yr un pryd (neu os ydych yn defnyddio cynnyrch gwahanol, o leiaf defnyddio un sydd â'r un cynhwysyn actif).

**5.9** Dylai fod gennych raglen ar gyfer rheoli clefydau heintus sydd wedi cael sêl bendith eich milfeddyg. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys trefniadau hylendid ac ynysu, a brechu.

**5.10** Dylai'ch milfeddyg neu ddeintydd ceffylau archwilio dannedd eich ceffylau o leiaf unwaith bob blwyddyn, a'u trin yn ôl y gofyn. Os oes gan geffyl ddannedd wedi treulio neu ddannedd annormal, fydd e ddim yn gallu cnoi ei fwyd yn iawn a gall hynny arwain at broblemau treulio bwyd. Dylai perchnogion a cheidwaid gadw eu llygaid ar agor am arwyddion y broblem, fel: bwyd wedi hanner ei gnoi yn cwympo o geg y ceffyl; colli graen a diffyg ynni; a symudiadau rhyfedd â'i geg wrth ei farchogaeth.

**5.11** Dylai pob perchennog a phawb sy'n cadw ceffyl ddeall rhywfaint am y gofal sydd ei angen ar droed ceffyl, sy'n tyfu'n barhaus a bod angen trin cloffni'n gyflym ac yn effeithiol. Dylai person cymwys docio’r carnau a sylwi ar sut maen nhw'n tyfu a'u cydbwysedd. Ni ddylid disgwyl i geffyl weithio fwy na'r hyn y gall y carnau ei gynnal, boed â phedolau neu hebddynt. Dylai ceffyl sy'n cael ei farchogaeth neu ei yrru ar heolydd neu ar wynebau caled a garw gael ei bedoli'n rheolaidd gan bedolwr cofrestredig. Fodd bynnag, os nad ydych yn pedoli'ch ceffyl, bydd angen edrych yn rheolaidd ar y carnau a gofalu amdanynt i wneud yn siwr nad yw'r ceffyl yn cael dolur wrth weithio ar dir anodd. Yn ôl Deddf Cofrestru Pedolwyr 1975, rhaid i unrhyw un sy'n pedoli ceffylau gofrestru bob blwyddyn gyda Chyngor Cofrestru'r Pedolwyr. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n pedoli'u ceffylau eu hunain yn unig. Dylech fynd â'ch ceffyl yn syth at bedolwr os oes pedol wedi dod yn rhydd neu os ydy'r hoelion wedi codi, rhag i'ch ceffyl gael ei anafu. Dylai'r carnau gael eu tocio neu eu hailbedoli bob rhyw 4-8 wythnos fel arfer.

**5.12** Mae clêr (pryfed) yn gallu poeni ceffyl yn ofnadwy, yn enwedig yn yr haf, a gallant heintio clwyfau. Felly dylech ofyn i'ch milfeddyg am driniaeth. Mae gwybed yn poeni ceffylau hefyd yn y gwanwyn a'r haf gan achosi crafu'r haf (*sweet itch* - alergedd ar y croen). Dylech ystyried cadw clêr a gwybed draw trwy ddefnyddio triniaeth lladd pryfed, rygiau a mygydau pryfed, neu os yw'ch ceffyl yn sensitif i frathiadau gan glêr neu wybed, dylech ei gadw dan do ddechrau a diwedd dydd pan fydd clêr a gwybed ar eu prysuraf.

**5.13** Os oes gennych geffyl gwaith, dylech drefnu bod milfeddyg yn ei archwilio o leiaf bob blwyddyn i wneud yn siwr ei fod yn ffit, gan roi sylw arbennig i broblemau iechyd allai deillio o’r gwaith.

**Cyfrwyau a Harneisiau**

**5.14** Dylai cyfrwyau a harneisiau fod yn addas at y diben gan ateb gofyn a galluoedd y ceffyl a'i farchogwr. Dylen nhw gael eu ffitio'n iawn, gan gyfrwywr profiadol os medrwch, a gofalwch eu haddasu pan fydd cyflwr y ceffyl yn newid. Dylech lanhau'r cyfarpar yn rheolaidd a'u cadw mewn cyflwr da er mwyn iddynt barhau'n gysurus, diogel ac effeithiol.

**5.15** Mae gan geffylau gwaith anghenion arbennig o ran eu harneisiau. Dim ond pobl gymwys a phrofiadol ddylai eu cynllunio a'u gosod.

**5.16** Esgidiau a rhwymau: Os ydych yn eu defnyddio, dylen nhw ateb y gofyn, dylech eu ffitio'n gywir rhag achosi niwed neu anesmwythyd a'u tynnu cyn gynted â phosibl.

**Cludo ceffylau**

**5.17** Wrth gludo ceffylau, gofalwch eu bod yn ddiogel, nad ydyn nhw'n dioddef stres a'ch bod yn cadw at y rheolau diweddaraf.

**Gofalu am Geffylau Hŷn neu Geffylau sy'n Sâl**

**5.18** Ambell waith, oherwydd afiechyd, henaint, damwain, neu am ei fod mor fethedig, bydd yn rhaid difa ceffyl. Rhaid rhoi lles y ceffyl yn gyntaf bob amser. Felly, er lles y ceffyl, dylai'r perchennog roi ystyriaeth lawn i'r mater ymhell cyn yr amser pan fydd yn rhaid penderfynu amddiffyn y ceffyl rhag poen a gofid diangen.

**5.19** Os ydy'r ceffyl, ym marn y milfeddyg, yn diodde'n dost, os nad yw wedi ymateb i driniaeth ar gyfer anaf neu gyflwr difrifol sy'n achosi poen mawr, os oes ganddo glefyd neu anaf nad yw'n debygol o wella ohono neu nad oes triniaeth ar ei gyfer neu os yw cyflwr y ceffyl cynddrwg y byddai'n greulon ei gadw'n fyw, dylai milfeddyg ddifa'r ceffyl ar unwaith heb greulondeb.

**5.20** Mewn sefyllfa nad yw'n argyfwng, lle bo'r ceffyl yn fethedig neu os yw'n dioddef o gyflwr mynych neu barhaol neu un sy'n gwaethygu, dylid dod i benderfyniad rhesymegol gan ystyried dyfodol a lles y ceffyl.

**5.21** Wrth i geffyl heneiddio, bydd ei anghenion yn tyfu, bydd angen mwy o sylw arno a mwy o ofal gan filfeddyg. Pan ddaw ceffyl i ddiwedd ei oes gwaith neu pan fydd yn hen iawn, dylid ystyried a oes modd rhoi bywyd o ansawdd i'r ceffyl ar ôl iddo ymddeol. Mae cyfrifoldeb ar y perchennog neu bwy bynnag sy'n gyfrifol am ofalu am y ceffyl i fod yn ymwybodol o anghenion yr anifail. Fel arall, dylid ystyried a fyddai'n fwy caredig difa'r anifail.

**ATODIAD 1**

**CLYMU**

**A** Pa mor addas yw'r anifail

1. Nid yw pob anifail yn addas ar gyfer ei glymu.
2. Anifeiliaid ifanc; ni ddylech glymu ceffylau ifanc o dan ddwy oed.
3. Ni ddylech glymu cesyg cyfeb yn nhrydydd traean eu beichiogrwydd.
4. Ni ddylech glymu cesyg sugno.
5. Ni ddylech glymu cesyg wrth ymyl meirch.
6. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth glymu meirch; ni ddylech eu clymu am gyfnod hir
7. Ni ddylech glymu anifeiliaid sâl.
8. Ni ddylech glymu anifeiliaid hen a methedig (rhai anabl, nid rhai sâl neu rai wedi'u clwyfo).
9. Ni ddylech glymu anifeiliaid sydd yng nghanol anifeiliaid rhydd.

**B** Safle (y tir y mae ceffyl wedi'i glymu yn cael mynd iddo)

1. Dylai'r safle fod yn weddol wastad, gyda thrwch da o borfa arno, a heb wrthrychau arno a allai fynd yn sownd wrth y tennyn.
2. Ni ddylai'r ceffyl allu mynd at briffordd gyhoeddus.
3. Nid yw'r safle'n addas os oes cyfran uchel o'r tyfiant arno'n chwyn.
4. Ni ddylai fod yn safle gwlyb.
5. Ni ddylai llwybr cyhoeddus groesi'r safle.
6. Ni ddylai fod unrhyw beth ar y safle allai anafu'r anifail.
7. Ni ddylid cael defnyddio'r safle heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog y tir. Dylai'r caniatâd ysgrifenedig gynnwys amod i gadw at y cod hwn.
8 Mae'r safle'n ddigon mawr os oes lle ar gyfer pob rhan o gorff y ceffyl a bod 4 metr ychwanegol rhwng rhan ôl un ceffyl a rhan ôl yr un nesaf ato.

**C** Offer clymu

1. Defnyddiwch naill ai ffrwyn o ledr sy'n ffitio'n dda neu strap gwddf lledr lydan. Dylai'r rhain fod yn sownd wrth gadwyn wrth ddyfais troi 360°.
2. Dylai'r gadwyn fod rhyw 20tr o hyd ac yn ddigon cryf i beidio â thorri ond yn ddigon ysgafn i rwystro'r offer clymu rhag rhwbio yn erbyn croen y ceffyl a'i glwyfo. Peidiwch â defnyddio rhaff na nylon.
3. Ni ddylai'r postyn sy'n ei ddal wrth y ddaear ymwthio'n uwch na lefel y ddaear, a rhaid rhoi dyfais troi 360° wrtho.

**D** Bwyd a dŵr

1. Weithiau, bydd digon o fwyd ar ffurf porfa ar y safle eisoes; os hynny, dylech symud y safle o leiaf unwaith bob dydd i sicrhau bod y borfa o safon digon uchel.
2. Os nad oes digon o borfa, gofalwch fod digon o fwyd sych ar gael iddo gydol y dydd.
3. Dylai dŵr fod ar gael yn aml ac yn rheolaidd gydol y dydd mewn cafn nad yw'n gallu moelyd (troi).
4. Mae'n bwysig cadw cynwysyddion ar gyfer dwysfwyd yn lân a diogel.

**E** Cysgod.

1. Ni ddylech adael i geffyl sefyll yn llygad yr haul, mewn glaw, eira neu gesair trwm na gwynt cryf ond am gyfnodau byr iawn. Pan fydd y tywydd yn neilltuol o gas, dylech ddarparu cysgod.
2. Dylech o leiaf gysgodi'r anifail rhag yr haul a gwynt mawr. Bydd gofyn bod y safle wedi'i ddraenio'n dda rhag i ddŵr glaw grynhoi arno.

**F** Ymarfer corff

1. Rhaid i'r anifail gael cyfnod o amser yn rhydd bob dydd i ymarfer ei gyhyrau.

**G** Cadw Golwg

1 Mae angen cadw golwg fanwl iawn ar geffylau sydd wedi'u clymu a dylech fwrw golwg arnynt o leiaf bob chwe awr yn ystod y dydd.

2. Dylech sicrhau'ch bod yn gallu delio ag eithafion y tywydd ac amgylchiadau eraill.

**H** Marciau adnabod.

1 Dylech roi marc ar y ceffyl er mwyn ichi allu ei adnabod, a bod modd cysylltu â'r ceidwad neu'r perchennog o'r marc adnabod hwn.

2 Gellwch wneud hynny trwy rewfrandio'r ceffyl neu rhoi microsglodyn arno sydd wedi'i gofrestru ar gronfa ddata sy'n agored 24 awr y dydd.

3 Fel arall, dylai rhyw fath o nod adnabod fod ar y ffrwyn neu strap y gwddf sydd â manylion llawn y perchennog neu'r ceidwad arno.

4 Bydd yn rhaid rhoi microsglodyn ym mhob ebol sy'n cael ei eni ar ôl 1 Gorffennaf 2009. Rhaid pasio'r manylion ymlaen at y Gronfa Ddata Ceffylau Genedlaethol.

**I** Gofynion eraill.

1. Efallai y bydd angen amddiffyn y ceffyl rhag pobl sydd ar berwyl drwg.

**ATODIAD 2**

## Y GYFRAITH

### Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae'r cod yn cyfeirio at nifer o adrannau'r Ddeddf. Rydym wedi'u rhestru isod er hwylustod.

Ceir yn y blychau ddyfyniadau o adrannau perthnasol y Ddeddf.

Mae'r blychau sydd wedi'u lliwio'n llwyd yn crynhoi troseddau a chosbau perthnasol y Ddeddf.

Dywed Adran 3 Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

(1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.

(2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.

(3) For the purpose of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.

(4) For the purpose of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

Dywed Adran 4 Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

(1) A person commits an offence if-

(a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,
(b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so
(c) the animal is a protected animal, and
(d) the suffering is unnecessary

(2) A person commits an offence if –

(a) he is responsible for an animal
(b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,
(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and
(d) the suffering is unnecessary

Dywed adran 9 y Ddeddf:

(1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

(2) For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include-
(a) Its need for a suitable environment
(b) Its need for a suitable diet
(c) Its need to exhibit normal behaviour patterns
(d) Any need it has to be housed with, or apart from, other animals
(e) Its need to be protected from suffering, injury and disease.

(3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular-
(a) any lawful purpose for which the animal is kept, and
(b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Dywed Adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

Codes of Practice

(3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceddings of any kind.

(4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13 –

(a) a failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be reilied upon as tending to establish liability, and
(b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be reilied upon as tending to negative liablity.

**Troseddau a Chosbau**

**1. Gallai person a geir yn euog o drosedd o dan adran 4 y Ddeddf gael ei garcharu am hyd at 51 wythnos* a/neu gael hyd at £20,000 o ddirwy. Os ceir ef yn euog o drosedd o dan adran 9 (heb ddiogelu lles anifail), gellir ei garcharu am hyd at yr un cyfnod o amser a'i ddirwyo**

**hyd at lefel 5 y raddfa safonol.**

**2. Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd. Dygir erlyniadau o dan y Ddeddf gan yr awdurdod lleol mewn Llys Ynadon.**

*** Y cyfnod carcharu hiraf fydd 51 wythnos pan ddaw adran 281 (5) Deddf Iawnderau Troseddol 2003 i rym.**

## Deddfau eraill sy’n effeithio ar geffylau

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006, mae nifer o ddeddfau eraill sy’n effeithio ar y ffordd y byddwch yn gofalu am eich ceffyl. Rydym wedi crynhoi’r rhai sydd fwyaf tebygol o effeithio arnoch chi isod.

O dan Ddeddf Chwyn 1959, caiff Gweinidogion Cymru eich gorchymyn i gymryd camau i rwystro chwyn penodol rhag lledaenu, os yw'n fodlon bod chwyn fel llysiau'r gingroen yn tyfu ar eich tir. Mae'n drosedd peidio ag ufuddhau i'r gorchymyn.

O dan Ddeddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975, mae'n drosedd i rywun sydd heb ei gofrestru bedoli ceffyl. Mae pedoli ceffyl yn golygu: "any work in connection with the preparation of treatment of the foot of a horse for the immediate reception of a shoe thereon, the fitting by nailing or otherwise of a shoe to the foot or the finishing off of such work to the foot”.

Yn ôl Atodiad 1 Rheoliad EC 1/2005, rhaid i'r anifail fod yn ffit i deithio a gellir sicrhau na fydd yr amodau y caiff yr anifail ei gludo ynddyn nhw yn achosi niwed na dioddefaint diangen iddo.

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid wrth eu Cludo (Cymru) 2007 rhif 1047 (W.105), rhaid i unrhyw un sy'n cludo anifail ar unrhyw daith sicrhau'r canlynol:

- Ni chaiff neb cludo anifeiliaid na threfnu eu bod yn cael eu cludo mewn ffordd fyddai'n debygol o'u hanafu na gwneud iddynt ddioddef yn ddiangen
- Cadw'r daith mor fach â phosibl
- Sicrhau bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio
- Bod y cerbyd a'i offer llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi niwed a dioddefaint i anifail ac i gadw'r anifail yn ddiogel
- Bod yr anifeiliaid yn cael dŵr, bwyd a gorffwys yn ôl yr angen, a bod digon o lawr ganddynt a digon o uchder yn y cerbyd.
- Rhaid cadw ffrwyn am ben ceffylau dros 8 mis oed - ond nid ceffylau heb eu dofi
- Ar gerbydau aml-lawr, rhaid cludo ceffylau a merlod ar y llawr isaf yn unig, heb anifeiliaid ar y llawr uchaf. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r nenfwd fod o leiaf 75cm yn uwch nag uchder ysgwyddau'r anifail talaf.
- Ar longau RO-RO, rhaid cludo ceffylau a merlod mewn stalau unigol, ond caiff caseg deithio gyda'i hebol.
- Rhaid peidio â chludo mwy na 4 o geffylau heb eu dofi gyda'i gilydd
- Rhaid peidio â chludo ceffylau heb eu dofi am fwy nag 8 awr

**ATODIAD 3**

## FFYNONELLAU GWYBODAETH

Deddfwriaeth

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo ac yn ystod gweithgareddau cysylltiedig.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007
- Deddf Chwyn 1959
- Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975

Gwefannau cymdeithasau perthnasol

- www.bhscymru.co.uk
- www.worldhorsewelfare.org
- www.bhs.org.uk
- www.newc.co.uk
- www.pcuk.org
- www.bva.uk
- www.beva.org.uk
- www.wef.org.uk
- www.farrier-reg.gov.uk
- www.cymru.gov.uk
- www.hsa.org.uk
- www.ragwort.jakobskruiskruid.com/
- www.t-c-m-rd.co.uk/invasive-weeds/ragwort/

Cyhoeddiadau sy'n berthnasol i'r pynciau sy'n cael eu trafod yn y Cod

- Cyhoeddiadau Cymdeithas Ceffylau Prydain:
    - The Complete Horse & Pony Care
    - BHS Guide to Grassland management
    - The BHS Complete Manuel of Stable Management
    - The BHS Veterinary Manual
    - The BHS First Horse Owner Pack
    - Taflenni lles y BHS, yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau. Gallwch eu llwytho o wefan y BHS: www.bhs.org.uk gan ddilyn y ddolen i 'Welfare' ac yna i 'Leaflets'.

- Cyhoeddiadau'r Pony Club:
  Manual of Horsemanship
  Keeping a Pony at Grass

- Cyhoeddiadau National Equine Welfare Council
    - Equine Industry Welfare Guidelines Compendium
    - Code of Practice for Markets and Sales involved with the selling of Horses, Ponies and Donkeys

  - Code of Practice for the Tethering of Horses, Ponies and Donkeys
  - Code of Practice for Welfare Organisations involved in the keeping of Horses, Ponies and Donkeys

- Cymdeithas Milfeddygon Ceffylau Prydain
  Horse Care Guide